

Gwella ein defnydd  
o wybodaeth  
2017–19

---



## Rhagair

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru, a chanddi gyfrifoldeb am wneud yn siŵr bod cleifion yn derbyn gofal da. Rydym yn cyflawni hyn trwy ein rhaglen flynyddol o weithgareddau, sy'n cael ei chynnal gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, ond yn cael ei harwain trwy ddefnyddio gwybodaeth mewn modd effeithiol.

Yn dilyn ymarfer ymgysylltu helaeth â staff, rydym wedi datblygu dogfen weithio fewnol, ein strategaeth gwybodaeth, sy'n cyfarwyddo ein gwaith ac yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybodaeth yn y canol. Gwybodaeth a ddylai fod y grym sy'n gyrru'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ac yn ein caniatáu i greu effaith well ar gleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein huchelgais i wella'r ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth ac yn amlinellu chwe amcan y byddwn yn eu gweithredu er mwyn gwneud hynny. Yn y pen draw, mae hyn yn ategu ein gweledigaeth fel sefydliad "*I wirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da*".



Kate Chamberlain  
Prif Weithredwr

## Gwella'r ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth

### Ein huchelgais:

*Defnyddio gwybodaeth mewn modd effeithiol i wirio bod cleifion yn derbyn gofal da*

### Sut byddwn yn cyflawni hynny?

*Byddwn yn adeiladu ar ein prosesau cyfredol ar gyfer defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau effeithiol trwy weithio tuag at yr amcanion canlynol:*

<u>Bod staff AGIC yn gwybod eu cyfrifoldebau ynglŷn â gwybodaeth</u>	<u>Cymorth dadansoddol gwell ar gyfer Rheolwyr Perthynas</u>	<u>Cymorth cyfathrebu a gwybodaeth gwell o fewn AGIC</u>
<u>AGIC yn rhannu gwybodaeth yn well y tu allan i AGIC</u>	<u>Gweithio'n agosach â phartneriaid i rannu gwybodaeth a'r arferion gorau</u>	<u>Gwella'r systemau mae AGIC yn eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth</u>

### Byddwn y gwybod ein bod wedi llwyddo pan fydd:

- Gwybodaeth yn amserol, yn gyfredol ac yn llifo'n gyflym ac yn ddi-dor trwy AGIC;
- Penderfyniadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio'r wybodaeth gywir ar yr adeg gywir; ac
- Ein rhaglen o weithgareddau'n cael ei thargedu i gyflawni gofal gwell i gleifion.

Mae'r amcanion a nodwyd yn ymwneud â ffyrdd mwy effeithiol o ddefnyddio gwybodaeth o fewn AGIC i ganiatáu i staff fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni eu rolau; maent wedi cael eu datblygu trwy waith ymgysylltu helaeth â'r holl staff i sicrhau eu bod yn gynnyrch y wybodaeth a'r profiad a gafwyd gan y rhai sy'n gweithio yn AGIC.

Mae'r chwe amcan y bydd AGIC yn eu gweithredu dros y ddwy flynedd nesaf i wella'r ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth fel a ganlyn:

## **1. Bod staff AGIC yn gwybod eu cyfrifoldebau ynglŷn â gwybodaeth**

Rhaid i staff AGIC ddeall eu cyfrifoldebau ynglŷn â gwybodaeth. Mae ein strategaeth gwybodaeth fewnol yn egluro'r union gyfrifoldebau sydd gan unigolion, swyddi penodol, grwpiau a thimau ynglŷn ag ymdrin â gwybodaeth. I'n cynorthwyo ni i gyflawni hyn, bydd amcan safonol yn cael ei ddatblygu a'i gynnwys yn adolygiadau rheoli perfformiad blynyddol pob aelod o staff.

Yn rhan o'r proses sefydlu, rhaid i reolwyr llinell sicrhau bod cyflogeion newydd i AGIC yn ymwybodol o'r strategaeth gwybodaeth fewnol ac yn deall eu cyfrifoldebau ynglŷn â gwybodaeth. Bydd hyn yn cynnwys egluro a dangos y systemau sydd ar waith gan AGIC ynglŷn ag ymdrin â gwybodaeth.

[Yn ôl i'r diagram](#)

## **2. Cymorth dadansoddol gwell ar gyfer Rheolwyr Perthynas**

Mae AGIC yn gweithredu gyda nifer o Reolwyr Perthynas, sy'n rheoli ein rhyngweithio â byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG a darparwyr annibynnol. Mae Rheolwyr Perthynas yn adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth am eu sefydliad i benderfynu ar union lefel y gweithgarwch y dylai AGIC ei chynnal o fewn pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth y GIG.

Rhoddir cymorth ychwanegol i bob Rheolwr Perthynas gan y tîm gwybodaeth i gynnal dadansoddiad mwy ystadegol o'r wybodaeth sydd ar gael i AGIC, er mwyn nodi tueddiadau allweddol neu feysydd cyffredin sy'n peri pryder o fewn ei sefydliad.

[Yn ôl i'r diagram](#)

### **3. Cymorth cyfathrebu a gwybodaeth gwell o fewn AGIC**

Er mwyn gwella'r llif gwybodaeth ar draws AGIC, rydym wedi nodi bod angen gwella cyfathrebu rhwng timau. Bydd y timau gwybodaeth a chymorth corfforaethol yn mynychu cyfarfodydd timau cyflawni'n rheolaidd yn caniatáu rhagor o rannu gwybodaeth a gweithio rhwng timau. Bydd dogfennau ar gyfer rolau a chyfrifoldebau llifoedd gwaith gwahanol yn cael eu datblygu i roi eglurdeb pellach a gwella effeithiolrwydd ein ffyrdd mewnol o weithredu.

Cyn pob arolygiad a gynhelir gan AGIC, mae pecynnau briffio'n cael eu creu gan y tîm gwybodaeth i gynorthwyo'r tîm arolygu i nodi lle y dylent ganolbwyntio eu hadnoddau pan fyddant yn arolygu lleoliadau gofal iechyd.

Bydd proses ffurfiol ar gyfer rhoi adborth ar ôl pob arolygiad yn cael ei chyflwyno, a fydd yn nodi gwelliannau y gellir eu gwneud i'r wybodaeth a gynhwysir yn y pecynnau cyn arolygu.

[Yn ôl i'r diagram](#)

### **4. AGIC yn rhannu gwybodaeth yn well y tu allan i AGIC**

Mae AGIC yn cynhyrchu amrediad eang o wybodaeth trwy ein rhaglen o weithgareddau. Mae canfyddiadau allweddol ar draws mathau gwahanol o arolygiad yn cael eu cyflwyno mewn adroddiadau arolygu blynyddol.

Pan fydd hynny'n briodol, bydd AGIC yn fwy rhagweithiol wrth rannu'r wybodaeth a gynhyrchir trwy ddiwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn uniongyrchol i AGIC. Gall hyn gynnwys rhannu tueddiadau â Llywodraeth Cymru neu bartneriaid cysylltiol.

Bydd AGIC hefyd yn defnyddio ei sianeli cyfathrebu i rannu negeseuon â lleoliadau gofal iechyd, gweithwyr gofal iechyd a'r cyhoedd i annog gwelliannau gwasanaeth y tu allan i weithgareddau arolygu arferol AGIC.

[Yn ôl i'r diagram](#)

## **5. Gweithio'n agosach â phartneriaid i rannu gwybodaeth a'r arferion gorau**

Mae llawer o sefydliadau sydd â'r nod o wella ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion mewn lleoliadau gofal iechyd ledled Cymru. Mae gan AGIC drefniadau ar waith gyda rhai o'r sefydliadau hyn trwy 'Femoranda Cyd-ddealltwriaeth' i'n galluogi ni i rannu gwybodaeth er mwyn llywio ein rhaglen o weithgareddau.

Mae AGIC yn adolygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth cyfredol i werthuso pa mor effeithiol ydynt ac i sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â'u bwriad. Mae AGIC yn ymwybodol bod sefydliadau eraill sy'n cadw gwybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i AGIC. Bydd AGIC yn ystyried creu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth newydd ac yn datblygu perthynas weithio â'r sefydliadau hyn i ddeall beth yw'r ffordd orau inni rannu gwybodaeth.

[Yn ôl i'r diagram](#)

## **6. Gwella'r systemau mae AGIC yn eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth**

Mae gan AGIC system ddiogel sy'n caniatáu staff i gofnodi unrhyw wybodaeth maent yn ei derbyn am bob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth y GIG a darparwr annibynnol, ac i gael mynediad hawdd ati.

Cynhelir rhaglen i adolygu effeithiolrwydd y system hon er mwyn nodi gwelliannau i'r ffordd y gall staff AGIC gofnodi a storio gwybodaeth am leoliadau gofal iechyd fel y gellir gwella ansawdd y wybodaeth a gedwir gan AGIC.

[Yn ôl i'r diagram](#)